

# £5miliwn i wella mynediad i natur a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

17/03/2022



Simon Thurley, Cadeirydd y Gronfa Treftadaeth, yn cerdded rhwng Chantelle Lindsay a Bobbi Benjamin-Wand, o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Llundain, ym Mharc Naturiol Camley Street yn Llundain. Delwedd © Broni Lloyd-Edwards.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Natur i ddod â natur i galon cymunedau ledled y DU, fel rhan o'n buddsoddiad etifeddiaeth Jiwbilî Platinwm.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaethau Natur i ddod â natur i galon cymunedau ledled y DU, fel rhan o'n buddsoddiad etifeddiaeth Jiwbilî Platinwm.

Bydd y fenter ar y cyd, [Nextdoor Nature](#), yn grymuso pobl mewn ardaloedd trefol a gwledig economaidd ddifreintiedig i ymgymryd â micro-brosiectau sy'n helpu natur i ffynnu a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn cefnogi tua 200 o grwpiau newydd i nodi a gweithredu camau gweithredu lleol sy'n bwysig i'w cymuned, mewn ffyrdd sy'n iawn i'w cymuned.

Rydym ni'n bodau dynol yn allweddol i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac adfer ein treftadaeth naturiol.

*Liz Bonnin, Llywydd yr Ymddiriedolaethau Natur*

Gallai micro-brosiectau cymunedol gynnwys:

- sefydlu cynefinoedd gwyllt a choridorau gwyrdd
- ailblannu ar dir yr ysgol
- trawsnewid ardaloedd trefol a heb eu defnyddio yn fannau gwyrdd

Dywedodd Liz Bonnin, Llywydd yr Ymddiriedolaethau Natur: "Rydym ni'n allweddol i ddatrys yr argyfwng hinsawdd ac adfer ein treftadaeth naturiol.

"Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn cymunedau a gallant roi cymorth a chynghor i'r rhai sy'n barod i arwain y gwaith o ddod â bywyd gwyllt yn ôl i gartrefi a gweithleoedd – gan ysbrydoli'r rhai o'u cwmpas i wneud yr un peth. Gallwn gyflawni pethau anhygoel pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd."



Chantelle Lindsay a Bobbi Benjamin-Ward o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Llundain, a Cel Spellman, actor a llysgennad yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, yn adeiladu blychau adar ym Mharc Naturiol Camley Street yn Llundain. Delwedd © Broni Lloyd-Edwards.

Mae Nextdoor Nature yn fenter drawsnewidiol a fydd yn rhoi mynediad i'r amgylchedd naturiol i filoedd o bobl nad ydynt efallai wedi'i fwynhau neu ei werthfawrogi'n llawn o'r blaen.

Mae Nextdoor Nature yn rhan o'r buddsoddiad o £7m a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2021 i nodi 70 mlynedd Ei Mawrhydi ar yr orsedd. Mae'r Loteri Genedlaethol yn ymrwymo cyfanswm o £22m ar draws ei dosbarthwyr i nodi Jiwbilî'r Frenhines.

Dywedodd Simon Thurley, Cadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Rydym yn falch iawn o lansio Nextdoor Nature, menter drawsnewidiol a fydd yn rhoi mynediad i'r amgylchedd naturiol i filoedd o bobl nad ydynt efallai wedi'i fwynhau na'i werthfawrogi'n llawn o'r blaen. Gobeithiwn y bydd llawer o bobl, am y tro cyntaf, yn mynd ati'n ymarferol gyda natur, gan greu cenhedlaeth newydd o hyrwyddwyr ar gyfer ein hamgylchedd naturiol gwerthfawr."

Dyma Cel Spellman, actor a llysgennad yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, yn rhannu ei gyffro ar gyfer Nextdoor Nature:

?

## Cyfleoedd i bobl ifanc

Ail ran ein buddsoddiad Jiwbilî yw £2m i gefnogi lleoliadau â thâl i bobl ifanc o gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn y gweithlu natur.

Bydd tua 70 o leoliadau ar gael i bobl ifanc 18–25 oed o gymunedau ethnig amrywiol, sy'n anabl a/neu o dan anfantais economaidd. Byddant yn cael eu rhoi mewn amrywiaeth o elusennau amgylcheddol am hyd at flwyddyn ac yn derbyn hyfforddiant, datblygu sgiliau a chymorth dilyniant.

Rydym yn [gwahodd detholiad o sefydliadau](#) i wneud cais i bartneru gyda ni i ddarparu'r lleoliadau – gweithio gyda sefydliadau lletyol lleol a darparu cymorth cofleidiol. Cyhoeddir canlyniad y broses gystadleuol hon erbyn diwedd mis Mai 2022.

## Ceisiadau prosiect

Oes gennych chi syniad ar gyfer eich prosiect treftadaeth eich hun sy'n gysylltiedig â'r Jiwbilî? Gallwch wneud cais drwy ein [Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#).

Efallai yr hoffech chi archwilio sut beth oedd byw yn eich cymdogaeth 70 mlynedd yn ôl neu gadw atgofion amrywiaeth o bobl leol o'r 70 mlynedd diwethaf.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn gweld prosiectau sy'n dogfennu profiadau gwahanol genedlaethau yn eich cymuned dros y blynyddoedd. Gallai hyn fod ar ffurf arddangosfa neu gyhoeddiad. Neu gellid ei archwilio drwy unrhyw beth o'r bwyd y mae pobl yn ei fwyta i'r man lle maent wedi gweithio neu'r gwrthrychau a ffotograffau sy'n golygu rhywbeth iddynt.

Gwiriwch [yr hyn rydym yn ei ariannu](#) a'r [canlyniadau](#) rydym yn disgwyl i'ch prosiect eu cyflawni. Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gyngor arnoch am eich syniad, [cysylltwch â'ch swyddfa leol](#).

## Cadw mewn cysylltiad

Byddwn yn rhannu mwy o fanylion am Nextdoor Nature a'r rhaglen lleoliadau â thâl dros y misoedd nesaf. Cofrestrwch ar gyfer ein [cylchlythyr](#) a dilynwch ni ar y [cyfryngau cymdeithasol](#) i fod ymhlith y cyntaf i gael gwybod.



**ddordeb hefyd mewn ...**



**[hymunedau ar gyfer jiwili'r Frenhines](#)**

**[My School, My Planet at Whinhill Primary, Inverclyde](#)**



**[roportionately impacted by COVID-19](#)**

Exploring Trinidad and Tobago's natural heritage at Fort George, Port of Spain.

**Breaking down barriers to nature for young Black people**